# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

## 2005 Rhif (Cy. )

## ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu tri chorff at y cyrff sy'n cael eu rhestru yn Adran 1, Rhan 1 o'r Atodlen i Orchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004. Nid yw corff sy'n cael ei restru felly yn gorff cydnabyddedig o fewn adran 216(4) o Ddeddf Diwygio Addysg 1998 ond yn un y mae'n ymdddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei fod naill ai

(a) yn darparu cwrs sy'n baratoad at radd sydd i'w rhoi gan gorff cydnabyddedig o'r fath ac a gymeradwyir gan y corff hwnnw neu ar ran y corff hwnnw; neu

(b) yn goleg, ysgol, neuadd neu sefydliad prifysgol arall sy'n gorff cydnabyddedig o'r fath.

Ystyr 'cyrff cydnabyddedig' yw prifysgolion, colegau neu gyrff eraill a awdurdodir gan Siarter Frenhinol neu gan Ddeddf Seneddol neu o dan Ddeddf Seneddol i roi graddau a chyrff eraill a ganiateir am y tro gan y cyrff hynny i weithredu ar eu rhan wrth roi graddau.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *2005* |
| *Yn dod i rym* | *30 Mehefin 2005* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 216(2) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (**2**) mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005 ac fe ddaw i rym ar 30 Mehefin 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004**

**2.** Ychwaneger at y rhestr o gyrff yn Adran 1, Rhan I o'r Atodlen i Orchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004(**3**) y cyrff canlynol (yn eu lle priodol yn ôl trefn yr wyddor), sef cyrff sy'n ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu bod yn dod o dan adran 216(3) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988:

(1) Kensington College of Business;

(2) London City College;

---

(**1**) 1998 p.40.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S.2004/3095 (Cy.269).

(3) School of Technology and Management (**4**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

Dyddiad

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) Is adran o London School of Commerce.
(**5**) 1998 p.38.